# Beth Sydd Ymlaen 2023

# Rhaglen Gerddoriaeth

## Dydd Sadwrn 2 Medi a Dydd Sul 3 Medi

Bydd y rhaglen gerddoriaeth yn digwydd rhwng 11am a 5pm ar y ddau ddiwrnod, gyda Phrif Lwyfan Tŵr Cam Maes Parcio'r Twyn yn parhau tan 8pm ddydd Sadwrn yn unig.

O 9am tan 11am bydd cerddoriaeth yn cael ei chwarae dros y system PA ledled y dref i ymwelwyr ei mwynhau nes bod y perfformiadau byw yn dechrau. Lle bo modd, bydd grwpiau dawnsio a chanu cymunedol lleol yn perfformio ar y prif lwyfan yn ystod yr amseroedd hyn.

## Ardal 1 - Llwyfan y Foneddiges Werdd - Heol Caerdydd / Kings Arms

### Dydd Sadwrn

| | |
|---|---|
| 11.00am – 12.15pm | Secret Postal Society |
| 12.30pm – 1.45pm | Richard Dinning |
| 2.00pm – 3.15pm | Cara Elin |
| 3.30pm – 5.00pm | The Carltones gyda Mudflat Glover |

### Dydd Sul

| | |
|---|---|
| 11.00am – 12.15pm | Rebecca Richards |
| 12.30pm – 1.45pm | Paterson |
| 2.00pm – 3.15pm | Kurt Jones |

| | |
|---|---|
| 3.30pm – 5.00pm | Tommy Mills a Pedro Brown |

## *Ardal 2 - Llwyfan Gilbert de Clare – Canol y Dref / Glanmors*

### *Dydd Sadwrn*

| | |
|---|---|
| 11.15am – 12.30pm | Richard Robling |
| 12.45pm – 2.00pm | Gravy Train Duo |
| 2.15pm – 3.30pm | Tobias Robertson |
| 3.45pm – 5.00pm | Cadence Acoustic Duo |

### *Dydd Sul*

| | |
|---|---|
| 11.15am – 12.30pm | Glen Manby |
| 12.45pm – 2.00pm | Frankie Wesson |
| 2.15pm – 3.30pm | Omega Two |
| 3.45pm – 5.00pm | Ragsy |

## *Ardal 3 – Prif Lwyfan y Tŵr Cam – Maes Parcio’r Twyn*

### *Dydd Sadwrn*

| | |
|---|---|
| 11.00am – 12.30pm | Ragsy (Triawd) |
| 12.55pm – 2.25pm | This River |
| 2.50pm – 4.20pm | Albino Frogs |
| 4.45pm – 6.15pm | Moonstorm |
| 6.30pm – 8.00pm | Prif Artistiaid: The Pandas |

### *Dydd Sul*

| | |
|---|---|
| 11.00am – 12.00pm | Spencer Flay |
| 12.25pm – 1.25pm | St Louis Express |
| 1.50pm – 3.05pm | The Striplights |
| 3.30pm – 5.00pm | Prif Artistiaid: Big Mac's Wholly Soul Band |

# Gwybodaeth am yr Artistiaid

## SECRET POSTAL SOCIETY




**Dilynwch ar Facebook: https://www.facebook.com/SecretPostalSocietyOfficial/**
**Dolen i gerddoriaeth:**
**https://open.spotify.com/artist/6wJMvP0mHXmNpGiYaX7DWW?si=r3VYXTASTASPfc0pZYwavg**

*Mae Secret Postal Society yn brosiect cerddorol gan y canwr/cyfansoddwr ac offerynnwr amryddawn Craig Mapstone. Ar ddiwedd 2020 fe wnaeth Craig herio ei hun i ysgrifennu, recordio a rhyddhau cân wreiddiol newydd sbon bob wythnos trwy gydol 2021. Erbyn diwedd 2021 roedd Craig nid yn unig wedi rhyddhau 53 o draciau ond roedd hefyd wedi creu fideos cerddoriaeth a gwaith celf i gyd-fynd â phob cân.*

*Yn 2022 fe wnaeth Craig ddechrau canu'n fyw fel Secret Postal Society gyda gigs yng Ngŵyl Jazz Aberhonddu ac EastFest ym Mhort Talbot, yn ogystal â slotiau gyda Revolution Rabbit Deluxe ac un brif artistiaid BBC Radio Wales, Kaysha Louvain.*

*Pan nad yw Craig yn ysgrifennu ac yn recordio fel Secret Postal Society, mae'n cynnal sioe radio Welsh Connections sy'n cael ei darlledu ar orsafoedd yn y DU, UDA, Canada a Sbaen i gynulleidfa fyd-eang o dros 200,000 o wrandawyr wythnosol. Mae Craig hefyd yn gweithio fel cerddor sesiwn, tiwtor ac mae'n gyfarwyddwr cerddoriaeth cwmni cysylltiadau cyhoeddus a hyrwyddo TIWN Media.*

## RICHARD DINNING




**Dilynwch ar Facebook: https://www.facebook.com/Acoustic-i-Richard-Dinning-775059235898826**
**Dolen i gerddoriaeth:**
**https://www.facebook.com/profile.php?id=100076234178589**

*Mae Richard yn cynnig ystod amrywiol o ganeuon gyda lleisiau a gitâr acwstig; caneuon enwog ar draws y degawdau ac ambel gân wreiddiol hynod sy'n cynnig cipolwg ar ei fywyd. Y cyfan wedi'i wneud gyda llawer iawn o hiwmor a phedal harmoni!*

## CARA ELIN



**Dilynwch ar Facebook:**
**https://www.facebook.com/profile.php?id=100062294331257**
**Dolen i gerddoriaeth: https://open.spotify.com/album 34MZleXXZRGrPKQPp3aKSE?si=SpCP6uPnRaKOy883kfZHPw**

*Cantores-gyfansoddwraig o Gymru yw Cara Elin sydd ar hyn o bryd yn astudio cerddoriaeth yn Goldsmiths, Prifysgol Llundain. Gan gymryd dylanwad llên gwerin Cymru, mae hi'n asio cerddoriaeth werin draddodiadol â rhythmau jazz cain gan roi bywyd newydd i hen chwedlau. Y llynedd fe wnaeth Cara Elin ryddhau ei EP cyntaf 'Split Milk' sy'n archwilio themâu cariad a cholled.*

## THE CARLTONES GYDA MUDFLAT GLOVER






**Digwyddiadau cymdeithasol:**
**http://www.stamfordhillbillies.co.uk/topic.php?pid=4 ;**
**http://www.dubwar.co.uk/ ; https://www.facebook.com/WAR2021**

*Canwr-gyfansoddwr a gitarydd o Ddwyrain Llundain yw Carlton Brodin, a gafodd ei ysbrydoli gan ffrwydrad cerddoriaeth ska yr 80au yn Coventry. Bu unwaith yn aelod o The Cosmics, a roddodd lwyfan i The Specials ailffurfio, 10 mlynedd ar ôl creu recordiau two-tone ym 1991.*

*Mae profiadau cofiadwy Carlton gyda The Cosmics yn cynnwys perfformio yn nathliadau cwymp wal Berlin gan fynd ag ethos o amrywiaeth gerddoriaeth Two Tone i Ddwyrain yr Almaen mono-ddiwylliannol ôl-sofietaidd. Mae hefyd wedi cydweithio gyda The Mad Professor, Lee Scratch Perry, Mackabee, Rico Rodriquez a Roy Shirley*

*Bydd Mudflat Glover yn ymuno â Carlton yn syth ar ôl bod ar daith yn yr Unol Daleithiau yn chwarae gitâr fas gyda Dubwar, gan gydweithio unwaith eto ar ôl degawdau. Cyfarfu Mudflat Glover a Carlton wedi i Mudflat symud i Lundain tua 2001, yn fuan ar ôl i Dubwar chwalu, gan chwarae bas gyda The Cosmics. Yn fwy diweddar, mae'r ddau wedi bod yn gweithio gyda Benji Webb (Dubwar, Skindread), ar LP newydd The Exiles, sydd i ddod allan ar ddiwedd 2023.*

## REBECCA RICHARDS



**Dolen i Facebook: [https://www.facebook.com/Becmusician](https://www.facebook.com/Becmusician)**
**Dolen i gerddoriaeth:**
**https://open.spotify.com/artist/53JnoVogpi4pu5n7Zb4zg3?si=puN8Ae_iSv-Zqbi9M4ISQw**

*Pianydd a chantores wedi'i hyfforddi'n glasurol o Bont-y-pŵl yn ne Cymru yw Rebecca Richards, a dechreuodd gyfansoddi caneuon yn ystod blynyddoedd y pandemig ar ôl ymuno â fforwm ysgrifennu caneuon ar-lein "Talent is Timeless" ac mae eisoes yn gwneud enw iddi'i hun gyda'i dilyniannau cordiau hyfryd, alawon swynol a'i llais tlws, ac mae wedi cael ei chymharu â phobl fel Carole King, Katie Melua a Karen Carpenter. Mae ei chaneuon yn ddyrchafol, yn grymuso tra'n cynnal elfen chwerwfelys. Unluckiest of Hearts", oedd ei sengl gyntaf a ryddhawyd ym mis Hydref 2022 a ganmolwyd fel syfrdanol" a llais ingol a hyfryd" a gafodd ei chwarae ar ragleni radio ledled y byd.*

*Mae ei dylanwadau mawr yn cynnwys The Eagles a Fleetwood Mac. Mae ei cherddoriaeth yn cael ei dylanwadu'n fawr gan y felan, canu gwlad a roc. Yn ddiweddar mae hi wedi dysgu chwarae gitâr mandolin a gitâr tenor sydd, meddai hi, yn ei helpu i gyfansoddi amrywiaeth eang o ganeuon. Mae Rebecca wedi ysgrifennu caneuon di-ri ac wedi ennill sawl cystadleuaeth ysgrifennu caneuon yn dilyn pleidlais ei chymheiriaid a chyrraedd y rhestr hir ddwywaith ar gyfer cystadlaethau rhyngwladol i ysgrifennu caneuon.*

## PATERSON



**Dolen i Facebook: https://www.facebook.com/WeArePaterson**
**Dolen i Gerddoriaeth: https://open.spotify.com/artist/0DfG0Wbaaqa11obMKAVcBo?si=SO8i3F5QSPaIPyusGdLxyw**

*Llais mor bur...digon o agwedd...llawn personoliaeth – roeddwn wrth fy modd!" -* ***BBC Radio Wales***

*Naws teimlad braf perffaith!" -* ***Cylchgrawn Diva***

*Talent crai, sy'n cymysgu elfennau o ganu gwlad, gwerin ac Americana yn un pecyn rhyfeddol" –* ***York Calling***

***Paterson*** *yw ymgnawdoliad diweddaraf y gantores/gyfansoddwraig o'r Coed Duon, Georgia Paterson, sy'n dod yn wreididol o Gaerdydd. Wedi'i hysbrydoli gan artistiaid clasurol a chyfoes fel* ***Simon & Garfunkel****,* ***Imelda May****,* ***Ashley McBryde****, a'i heilunod mawr* ***Indigo Girls*** *(yr oedd hi wrth ei bodd yn ymddangos fel gwestai gyda nhw ar eu taith ddiwethaf yn y DU), mae* ***Paterson*** *yn creu Americana/Canu Gwald arbennig iawn - cerddoriaeth acwstig sy'n llawn agosatrwydd emosiynol. Drwy gydol ei gyrfa, mae hi wedi cydweithio â llawer o bobl nodedig yn y diwydiant cerddoriaeth, gan gynnwys* ***Shelly Poole*** *(cyfansoddwr sydd wedi gwerthu recordiau platinwm ac ennill gwobrau ac sydd wedi cael llwyddiant mawr gyda sêr mor amrywiol â* ***Janet Jackson****,* ***Massive Attack*** *a* ***Jack Savoretti****),* ***Aled Richards*** *o'r band alt-roc Cymraeg* ***Catatonia****, a'r cynhyrchwyr* ***Greg Haver (Melanie C, Manic Street Preachers****), a* ***Charlie Francis (REM, Noisettes****). Yn ogystal â hyn mae Georgia wedi cefnogi* ***Amy Wadge*** *(****cyd-enillydd gwobr Grammy gydag Ed Sheeran****), ac wedi chwarae mewn amryw o wyliau cerddoriaeth gan ganolbwyntio ar ddathliadau Pride, a nifer o gigs elusennol. Mae rhai o'i huchafbwyntiau yn cynnwys ymddangos yn* ***Diva Magazine*** *a* ***Nation Radio****, yn ogystal â chael* ***Trac yr Wythnos'*** *a sawl sesiwn fyw ar* ***BBC Radio Wales.***

## KURT JONES



**Dolen i Facebook: https://www.facebook.com/kurt.jones.359**

**Dolen i gerddoriaeth:**

**https://open.spotify.com/artist/0ICMCskZQ02bgNeWVuJ77p?si=fiJTus6JSN6kdv4ERD5Ejw**

*Canwr-gyfansoddwr hunanddysgedig ac offerynnwr amryddawn sy'n hanu o gymoedd y Rhondda yn ne Cymru yw Kurt, sydd ers dros ddegawd wedi teithio ar hyd a lled y wlad gan adeiladu poblogrwydd o'i arddegau i'w 20au cynnar gan rannu ei ddawn adrodd straeon fel caneuon bobl a chefnogwyr ymhobman, gan wneud ymddangosiad ar-lein gyda'i sengl gyntaf 'looking at the stars' ar ddechrau 2019.*

## TOMMY MILLS A PEDRO BROWN



**Dolen i Facebook: https://www.facebook.com/tommy.mills.92351**

*Cyfarfu Tommy Mills a Pedro Brown am y tro cyntaf wrth recordio sesiwn yn Stiwdios Rockfield ar ddiwedd y saithdegau. Ail-ffurfiodd y ddau eu partneriaeth wrth berfformio mewn gig i goffau dau o aelodau enwog y Pretenders, James Honeyman Scott a Pete Farndon.*

*Maen nhw'n perfformio amrywiaeth o gerddoriaeth o ddegawdau a fu ar amrywiaeth o offerynnau: gitâr, lleisiau, offerynnau taro a sacsoffon.*

## RICHARD ROBLING



**Dolen i Facebook: https://www.facebook.com/richard.robling.9**
**Dolen i gerddoriaeth: www.youtube.com/watch?v=oYvKrWKXmOs**

*Fel edmygydd o gyfansoddwyr caneuon gwych o bob genre, mae rhestr set Richard yn amrywiol ac wedi'i chynllunio i blesio cymaint â phosibl. Bydd caneuon gan faledwyr mawr y pedwardegau a'r pumdegau, o sgiffl y pumdegau i roc y chwedegau, gan gynnwys y sin werin, i fyny i'n dyddiau ni – ac un neu ddwy o ganeuon gwreiddiol ei hun. Mae'r gitâr acwstig yn asio'n wych gyda'i lais.*

## TRAIN GRAVY DUO

**Dolen i Facebook:**
**https://www.facebook.com/profile.php?id=757995197&sk=videos**
**Dolen i gerddoriaeth: https://www.youtube.com/@MrTichthomas**

*Mae’r Gravy Train Duo yn cynnwys Marc Elton ar y ffidil a Tich ar y gitâr a llais. Byddan nhw’n cynnig cymysgedd o ganeuon clasurol, jazz, cerddoriaeth ffilmiau ynghyd â chaneuon poblogaidd o'r 50au i'r presennol ar offerynnau amrywiol.*

*Mae Marc a Tich wedi chwarae gyda'i gilydd ers dros 30 mlynedd mewn amryw o lefydd yn ardal de Cymru ac wedi chwarae llawer o wyliau mawr gan gynnwys Glastonbury. Maen nhw hefyd wedi gwneud sawl ymddangosiad ar deledu a radio yng Nghymru a Lloegr.*

*Maen nhw bob amser yn hwyliog a phob amser yn rhoi perfformiad o'r safon uchaf, ac yn bwysicaf oll maen nhw bob amser yn cael llawer iawn o hwyl!*

## TOBIAS ROBERTSON



**Dolen i Facebook: [www.facebook.com/tobiasofficial](www.facebook.com/tobiasofficial)**
**Dolen i gerddoriaeth: www.youtube.com/watch?v=BR1Ob4PaUlE**

*Artist Annibynnol Soul/Gwerin o Gymru yw Tobias. Perfformiodd ar raglen The Voice UK y BBC yn ôl yn 2016. Arferai Tobias berfformio i waliau ei ystafell wely yn unig nes i'w ffrindiau wneud iddo sylweddoli pa mor dda ydoedd. Heb sôn am ei hen fodryb dalentog, Cilla Black, sy'n cael ei hystyried yn gymaint o ysbrydoliaeth ganddo.*

## CADENCE ACOUSTIC DUO



**Dolen i Facebook: https://www.facebook.com/CadenceAcousticCoversDuo**

**Dolen i gerddoriaeth: https://www.facebook.com/CadenceAcousticCoversDuo/videos**

*Deuawd gwrywaidd/benywaidd yw CADENCE, gyda dwy gitâr a digonedd o harmonïau yn perfformio caneuon poblogaidd o'r 1960au i heddiw; ar draws sawl genre o Abba i Zeppelin.*

*Maen nhw'n berfformwyr profiadol gyda phresenoldeb llwyfan gwych ac yn cysylltu â chynulleidfaoedd yn dda, gan wneud gigs yn llawer o hwyl.*

## GLEN MANBY



**Dolen i Facebook: https://www.facebook.com/glen.manby/videos**
**Dolen i'r wefan: https://www.glenmanby.com/**

*Mae Glen Manby yn sacsoffonydd, cyfansoddwr ac athro alto sacs, yn gweithio'n bennaf mewn jazz acwstig modern. Ei brif ddylanwadau yw Charlie Parker, Sonny Stitt, a Phil Woods. Yn 1997 dyfarnwyd ysgoloriaeth iddo i astudio ar y Rhaglen Jazz a Cherddoriaeth Gyfoes yn The New School yn Greenwich Village, Efrog Newydd. Yn 2013 enillodd MA mewn Jazz yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru.*

*Mae e wedi perfformio yn Uwchgynhadledd Ewropeaidd yr UE, gwledd y Frenhines ar gyfer Agor Senedd Cymru, Agor Canolfan Mileniwm Cymru, a dyddiadau clybiau o amgylch Prydain, yn ogystal â gigs yn Efrog Newydd, yr Almaen, a'r Swistir.*

*Yn 2015 dyfarnwyd Grant Prosiect Cyngor Celfyddydau Cymru iddo i gyfansoddi, trefnu a recordio repertoire newydd gyda'i bumawd a ffurfiwyd yn ddiweddar, sy'n cynnwys Steve Waterman, Leon Greening, Adam King, a Matt Home. Mae'r CD a ddeilliodd o hyn, "Homecoming", ar gael ar label jazz Mainstem.*

*Mae Glen wedi dysgu sacsoffon yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru yn y gorffennol, a bu'n ddarlithydd rhan-amser mewn cerddoriaeth ym Mhrifysgol De Cymru am 12 mlynedd. Roedd yn diwtor sacsoffon jazz ar ymweliad yn Ysgol Cerddoriaeth Prifysgol Caerdydd 2000-2021.*

## FRANKIE WESSON




**Dilynwch ar Facebook: www.facebook.com/frankiewessonmusic**
**Dolen i gerddoriaeth: www.facebook.com/watch/?v=193317335825978**

*Dechreuodd y gantores-gyfansoddwraig o dde Cymru Frankie Wesson ysgrifennu caneuon a pherfformio yn ei thref enedigol, Y Fenni yn 16 oed. Cafodd ei chaneuon sinematig eu hysbrydoli gan ei phrofiadau personol o hiraeth chwerwfelys, cariad coll, ing yr arddegau a realiti cymhleth tyfu i fyny yn LHDT.*

*A hithau wedi'i magu ar gerddoriaeth artistiaid fel Alanis Morisette, Eva Cassidy a Stevie Nicks, mae Wesson hefyd yn cael ei hysbrydoli gan gymysgedd o artistiaid cyfoes fel Deaf Havana, Ed Sheeran, Taylor Swift a Gabrielle Aplin. Cynhyrchodd gerddoriaeth agos-atoch, emosiynol amrwd, ond hamddenol gyda naws pop/gwerin/roc. Mae ei hystod lleisiol amryddawn a'i thalent ar gyfer ysgrifennu caneuon emosiynol yn creu perfformiadau byw cyfareddol a chaneuon a fydd yn saff o ddod yn rhan o'ch ffefrynnau cerddorol.*

*Mae Frankie wedi cael sylw ar BBC Radio 6 a BBC Introducing yn ogystal â rhestrau chwarae Spotify 'Chilled Pop Hits' a 'New Music Friday'. Mae'r sengl electro-pop 'Reasons' o'i halbwm diweddaraf 'Still Got Time' wedi cael ei ffrydio dros 112,000 o weithiau ar Spotify.*

*Disgrifiodd cylchgrawn Soundboard Abertawe gerddoriaeth Wesson fel rhywbeth 'amserol' a fydd yn apelio at ddilynwyr Fleetwood Mac a Paramore fel ei gilydd heb gyfaddawdu na gwanio unrhyw arddull sy'n gwneud cerddoriaeth Wesson yn gerddoriaeth hi ei hun... albwm pellgyrhaeddol'.*

*Mae Frankie wedi perfformio yng Ngŵyl Trefynwy, How The Light Gets In - yn y Gelli Gandryll a Llundain, Gŵyl Gerdd Coleford, Fringe Abertawe, Pride Y Fenni, Rock The Barn a llawer mwy yn ogystal â chwarae'n fyw ar nifer o orsafoedd radio a gigs di-ri o gwmpas Cymru a Lloegr.*

## OMEGA TWO




**Dilynwch ar Facebook: https://www.facebook.com/omegatwoduo**
**Dolen i gerddoriaeth: https://www.facebook.com/omegatwoduo/videos**

*Omega Two yw Jane Wiliams (Van Morrison, Wild Willy Barrett) ar Llais/Ukelele/Piano a Pete Mathison (Ray Davies yn y 90au) ar y gitâr. Mae Omega Two yn chwarae cyfuniad o jazz llyfn ac alawon gwrando hawdd, i'ch rhoi chi yn hwyl yr ŵyl! Maen nhw wedi chwarae mewn gwahanol lefydd yn yr ardal - The Dead Canary, The Book Club, Rummer Tavern a Cafe Jazz ynghyd â gwyliau amlwg fel Jazz Aberhonddu ac Aberjazz yn Abergwaun.*

## RAGSY



**Dolen i Facebook: [www.facebook.com/Ragsy](http://www.facebook.com/Ragsy)**
**Dolen i gerddoriaeth:**
**www.facebook.com/watch/live/ref=watch_permalink&v=650118015622835**

*Mae Ragsy yn ganwr-cyfansoddwr adnabyddus o Gymru a ymddangosodd ar The Voice UK yn 2013 ac a gafodd ei fentora gan ei gydwladwr Syr Tom Jones. Dros y blynyddoedd mae Ragsy wedi recordio sawl albwm, gyda chaneuon o'r albymau hyn fel 'Ouch!!' ac 'One More For The Road' yn cael eu darlledu ledled y byd gan wahanol orsafoedd radio gan gynnwys BBC Radio Wales.*

*Mae eleni yn nodi 10 mlynedd ers i Ragsy ymddangos ar y rhaglen a dechrau ei daith gerddorol, ac mae'n teithio eleni i gofio'r foment arwyddocaol honno.*

*Mae Ragsy yn mynd nôl ar y ffordd i ddathlu'r garreg filltir hon, gan berfformio ar ei ben ei hun a gyda band mewn theatrau a gwyliau amrywiol.*

*Bydd Ragsy yn perfformio caneuon o'i albymau yn ogystal â'r caneuon a gafodd eu perfformio ar The Voice, yn ogystal ag adrodd ambell stori ar hyd y daith.*

## RAGSY (TRIAWD)




**Dolen i Facebook: <u>www.facebook.com/Ragsy</u>**
**Dolen i gerddoriaeth:**
**www.facebook.com/watch/live/ref=watch_permalink&v=650118015622835**

*Mae eleni yn nodi 10 mlynedd ers i Ragsy ymddangos ar y rhaglen a dechrau ei daith gerddorol, ac mae’n teithio eleni i gofio’r foment arwyddocaol honno.*

*Mae Ragsy yn mynd allan ar y ffordd i ddathlu'r garreg filltir hon, gan berfformio ar ei ben ei hun a gyda band mewn theatrau a gwyliau amrywiol.*

*Mae'r band yn cynnwys ffrindiau agos iawn (y Cynhyrchydd Chris ‘Peety’ Peet a Craig ‘Pasty’ Roberts) ynghyd ag ychydig o aelodau eraill, yn perfformio caneuon o'i albymau yn ogystal â chaneuon a gafodd eu perfformio ar The Voice, yn ogystal ag adrodd ambell stori ar hyd y daith.*

## THIS RIVER



**Dolen i Facebook: www.facebook.com/profile.php?id=100057404652001**
**Dolen i gerddoriaeth: https://open.spotify.com/artist/5tGLFIztlj01xd49OsbZSK?si=UPRcxIrWRAW3sfPdyAklDw**

*Triawd roc sy'n hanu o dde Cymru yw This River. Mae'r band yn cynnwys yr aelod gwreiddiol Idge Logan, a symudodd ar ôl blynyddoedd o arwain y band i ddarparu'r rhythmau ar y drymiau, ond sy'n dal i ganu fel prif leisydd melodig. Mae'r chwaraewr bas Chris 'Dabs' Davies yn chwarae'r riffs ar y bas a chanu lleisiau cefndir, a Rich Teague yw'r gitarydd blaen a rhythm anhygoel!*

*Mae'r band wedi bod gyda'i gilydd ers blynyddoedd lawer, ac wedi gweithio'n galed i ryddhau eu halbwm diweddaraf 'Lower Your Expectations' sy'n cyfuno arddulliau a synau ar draws ystod o genres i greu profiad gwrando gwirioneddol unigryw y gall y rhai sy'n hoff o gerddoriaeth o bob math ei fwynhau.*

## ALBINO FROGS




**Dolen i Facebook: www.facebook.com/albinofrogs**
**Dolen i gerddoriaeth: https://soundcloud.com/albino-frogs**


*Yn cael eu hadnabod yn syml fel 'The Frogs' i'w nifer cynyddol o ddilynwyr sy'n mwynhau eu cerddoriaeth wreiddiol hwyliog a bywiog, mae'r band pedwar aelod hwn o Gymoedd De Cymru yn apelio at bob oed, wrth iddyn nhw chwarae roc Lladin ffynci, sy'n gwneud i chi dapio traed a siglo eich corff. Ar ben hynny maen nhw hefyd yn chwarae ychydig o jazz a chanu gwlad.*

*Mae'r caneuon gwreiddiol yn arbennig; gydag alawon bachog cofiadwy, felly erbyn yr ail gytgan byddwch chi'n canu gyda'r band. Darperir bas a drymiau cadarn ond ffynci gan Daryl Cook, gyda Will Palmer yn ategu arddull gitâr hwyliog a llais pwerus Ian Day, tra bod sacsoffon penigamp Ric Lawton, yn eisin ar y gacen. Gyda harmonïau lleisiol 3 rhan yn amlwg, mae The Frogs yn cynhyrchu sain dynn ac ysbrydoledig llawn iawn. Lle mae Steely Dan yn cwrdd â Hue and Cry yn cwrdd â Little Feat, i'r rhai sy'n hoffi cymariaethau, ond y gwir yw bod y band hwn yn wirioneddol wreiddiol a hynod wahanol.*

*Yn ystod y blynyddoedd diwethaf maen nhw wedi bod yn boblogaidd iawn mewn gwyliau fel Aberhonddu, Rhaglan, Aber Jazz, Jazz Rhyngwladol Abertawe a Jazz Llanelli a Llandeilo a Gŵyl Gerddoriaeth Reading a Gŵyl Gerddoriaeth y Gelli Gandryll, i enwi dim ond rhai. Maen nhw'n parhau i wneud y gigs bara menyn ledled y DU gan lwyddo i ddiddanu yn ddiffael, nid yn unig trwy eu cerddoriaeth gerddorol, ond hefyd eu synnwyr o hwyl, gyda sylwadau wrth fynd heibio trwy gydol y set i ddifyrru eu cynulleidfaoedd. Maen nhw'n gweithio ar drydedd albwm ar hyn o bryd, gan ddenu diddordeb o fannau mor bell i ffwrdd ag Austin Texas.*

*Mae cerddoriaeth The Frogs wedi cael ei chyflwyno yng ngŵyl gerddoriaeth fawreddog MIDEM Cannes gan dderbyn ymatebion ffafriol o gyn belled i ffwrdd â De America.*

## MOONSTORM

**Dolen i Facebook: www.facebook.com/Moonstorm-106306968338590**
**Dolen i gerddoriaeth: www.facebook.com/Moonstorm-106306968338590/videos/538630073937921**

*Mae Moonstorm yn brofiad cerddoriaeth roc 5 darn gan chwarae caneuon o’r 60au i siartiau heddiw gan gynnwys Tom Petty, Heart, AC/DC, Dua Lipa, Fleetwood Mac, Queen, Neil Young a mwy. Yn cynnwys Amanda Seed fel prif lais (cyn aelod o Big Mac's Wholly Soul Band), a Viv Lock (Rhiannon, Seven Wonders) ar y gitâr flaen.*

## PRIF ARTISTIAID: THE PANDAS



**Dolen i Facebook: https://www.facebook.com/thepandapartyband**
**Dolen i gerddoriaeth: https://www.facebook.com/thepandapartyband/videos**

*Mae'r band parti soul 7-darn hwn wedi bod yn chwarae ar hyd a lled de Cymru a thu hwnt ers 2009. Mae The Pandas yn fand arbennig gyda'u rhestr set o glasuron poblogiadd, lleisiau merched pwerus ac adran bres lawn. Disgwyliwch bopeth o Stevie Wonder i Amy Winehouse.*

## SPENCER FLAY



**Dolen i Facebook: www.facebook.com/spencerflaymusic**
**Dolen i gerddoriaeth:**
**https://open.spotify.com/artist/46IxhJGbFfxwNEUu0GKfUQ**

*Mae Spencer wedi gwneud yr ukelele yn offeryn cŵl ar y llawr dawnsio gyda'i guriadau a'i riffs gwych. Yn flaenorol roedd yn fwy adnabyddus fel gyrrwr craen Dociau Bryste, mae wedi gwneud enw i'w hun ledled de-orllewin Lloegr.*

*Gan gymryd sain fodern a llenwi pob darn ohoni â hiwmor a ffraethineb Bryste, mae'n mynd ymhell y tu hwnt i ailgreu ei ganeuon arloesol ar Waves, gan gymysgu hynny â thraciau ochrau B, tynnu coes o'r radd flaenaf ac ychydig o ganeuon brig y siartiau wedi'u hailddychmygu.*

## ST LOUIS EXPRESS



**Dolen i Facebook https://www.facebook.com/profile.php?id=100057394603438**
**Dolen i gerddoriaeth: https://encoremusicians.com/St-Louis-Express**

*Band swing 7 darn, a band Jump Jive sy'n llawn egni, adloniant gwych a hwyl, gan chwarae synau o oesoedd Aur cerddoriaeth, o’r 1920au i’r 1960au cynnar.*

*Maen nhw wedi datblygu ein sain i weddu i bob oed o 1 i 92 gan chwarae mewn lleoliadau cerddoriaeth fyw amrywiol, priodasau, gwestai, bwytai, gwyliau, digwyddiadau corfforaethol ac arbennig gan ennill clod mawr.*

*Mae'r band yn perfformio caneuon y mawrion, gan gynnwys, Frank Sinatra, Ray Charles, Louis Prima, Dean Martin, Louis Jordan a Harry Belafonte, gan chwarae Jazz, (caneuon swing y bydd y rhan fwyaf o bobl yn eu hadnabod) ac yn ymgysylltu â chynulleidfaoedd gyda cherddoriaeth heintus, teimladwy a bywiog.*

*Band cyffrous yn cynnwys sacsoffon, clarinet, ffliwt, bas dwbl, drymiau, gitâr, prif leisiau a lleisiau cefndir a harmonica. Maen nhw’n gerddorion proffesiynol o’r safon uchaf, gyda rhai ohonyn nhw wedi perfformio yn Neuadd Albert, ac yn rheolaidd mewn gwyliau cerdd gan gynnwys tymhorau Proms.*

*Mae’r band yn gwisgo mewn dillad o'r 1930au a'r 1940au gan fynd â chynulleidfaoedd yn ôl mewn amser i gyfnod Swing / Jazz, gan wneud digwyddiad yn achlysur cofiadwy. Band proffesiynol hwyliog a gwych.*

## THE STRIPLIGHTS



**Dolen i Facebook: https://www.facebook.com/thestriplights**
**Dolen i gerddoriaeth: https://www.youtube.com/thestriplights**

*THE STRIP LIGHTS – band indie/roc/pop pum darn o dde Cymru.*
*Byddan nhw'n saff o gadw'r parti i fynd! O glasuron bythol i ffefrynnau cyfoes, mae The Strip Lights yn meddu ar y gallu rhyfedd i ddarparu ar gyfer pob chwaeth gerddorol, gan sicrhau bod yr egni yn parhau i fod yn uchel drwy gydol y dathliad. Paratowch i ddawnsio a chanu gyda The Strip Lights!*

## PRIF ARTISTIAID: BIG MAC’S WHOLLY SOUL BAND

**Dolen i Facebook: https://www.facebook.com/groups/21693080282**
**Dolen i'r wefan: https://bigmacswhollysoulband.com/**
**Dolen i gerddoriaeth: https://www.youtube.com/@sarahcampbell2000**

*Mae Big Mac's Wholly Soul Band yn fand soul clasurol 12 darn sydd wedi bod gyda'i gilydd ers 1990 ac wedi chwarae nid yn unig ledled y DU, gan gynnwys The Marquee Club, The Café Royal, The Rock Garden, Boomtown Festival, Upton Blues, The Dorchester ac ati ond hefyd yn Fiena, Cairo, Tenerife, yr Almaen a Dulyn. Maen nhw wedi cefnogi neu rannu’r llwyfan gyda pherfformwyr fel Billy Ocean, Edwin Starr, Jools Holland, Van Morrison, Earth Wind & Fire, Jimmy James, The Real Thing, Odyssey, Craig Charles, Ruby Turner, Gwen Dickey (Rose Royce), The Commitments, Sheila Ferguson (The Three Degrees), Pato Banton, The Pasadenas, Jaki Graham a llawer mwy.*

*‘Mike, fe wnes i safio’r fideo hwn ohonoch chi a'r grŵp yn ei perfformio IN THE MIDNIGHT HOUR, rydych chi'n edrych yn wych, ac yn gwneud gwaith anhygoel ar y gân WICKED. LLAWER O GARIAD i ti fy ffrind.’ Maxwell Pickett (brawd Wilson Pickett).*